

PAPUR ADNABOD GWAG

Enw	
Oedran	
Gwlad Enedigol	
Pam rydych yn gadael eich cartref?	
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	
Pa un eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	

PAPUR ADNABOD

Enw	Gloria Ezekial
Oedran	17
Gwlad Enedigol	Nigeria
Pam rydych yn gadael eich cartref?	Ymosododd Boko Haram, grŵp terfysgol sy'n gweithredu yn rhan ogleddol fy ngwlad, ar fy ysgol a chipio fy chwaer a nifer o'm ffrindiau. Fe wnaethant hefyd losgi ein pentref a lladd fy rhieni oherwydd eu bod yn Gristnogion. Rwyf wedi cael fy ysgwyd gan yr ymosodiad ac yn teimlo na allaf aros yn Nigeria. Nid wyf yn teimlo'n ddiogel. Rwyf eisiau bywyd gwell.
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	Rwyf wedi gadael fy nhaid a'm dau frawd iau, Emmanuel ac Elijah. Rwyf hefyd yn teimlo'n ofnadwy am adael pan allai fy chwaer fod yn unrhyw le.
Pa eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	Mae gennyf Feibl fy rhieni. Roedd fy mam yn arfer tanlinellu nifer o adnodau pan fyddai hi'n eistedd yn yr eglwys, ac rwyf wedi dechrau dysgu'r rhain fel ffordd o'i chofio hi.

Enw	Lobsang Tsering
Oedran	27
Gwlad Enedigol	Tibet (Tsieina)
Pam rydych yn gadael eich cartref?	Cafodd fy ngwlad ei goresgyn gan Tsieina yn 1950. Cawsom ein herlid ganddynt a chafodd ein mynachdai Bwdhaidd eu dinistrio, ond nid yw fy mhobl erioed wedi rhoi'r gorau i obeithio y byddwn yn rhydd eto rhyw ddydd. Yn 2008, roeddwn yn rhan o drefnu protestiadau yn erbyn llywodraeth Tsieina ac ers hynny rwyf wedi bod yn cuddio. Pe byddent yn dod o hyd i mi, byddent yn fy ngharcharu am fy nghredoau gwleidyddol a chrefyddol.
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	Rwyf wedi gorfod gadael fy mynachdy; mae'r holl ffrindiau y tyfais i fyny gyda nhw drwy fy holl fywyd yno, er bod nifer ohonynt hefyd yn cuddio ar ôl yr hyn a ddigwyddodd yn 2008.
Pa eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	Fy olwyn weddio ledr y bûm yn berchen arni ers pan oeddwn yn fachgen. Hwn yw fy eiddo mwyaf gwerthfawr, ond mae hefyd yn symbol o ddyfodol Tibet... rwy'n gobeithio y gallaf ddychwelyd i wlad rydd a theg rhyw ddydd.

PAPUR ADNABOD SWYDDOGOL

Enw	Martin Snow
Oedran	41
Gwlad Enedigol	Yr Unol Daleithiau
Pam rydych yn gadael eich cartref?	Rwy'n gyfreithiwr sydd wedi bod yn brwydro'r achos dros wefan a gyhuddwyd o roi gwybodaeth ar-lein 'nad oedd yn ffafriol i ddiogelwch cenedlaethol America'. Beth roedd hyn yn ei feddwl mewn gwirionedd oedd nad oedd lluoedd diogelwch a lluoedd arfog America eisiau i'r gwirionedd gael ei ddatgelu: sef bod y fyddin wedi bod yn arteithio carcharorion er mwyn cael gwybodaeth am derfysgaeth. Bellach, mae llywodraeth America eisiau dwyn achos cyfreithiol yn fy erbyn!
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	Rwyf wedi gadael fy ngwraig ac un ferch sy'n oedolyn, ond rydym i gyd wedi dod i'r Deyrnas Unedig. Maen nhw'n byw yn Llundain. Mae'n rhaid i mi fyw mewn lleoliad dirgel.
Pa eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	Mae gennyf ffeil o gyfrinachau gwladol a roddwyd i mi gan bobl ym myddin America - mae hon yn wybodaeth sensitif y bydd ei hangen arnaf os caf fy anfon o'r wlad ac mae'n rhaid i mi amddiffyn fy hun!

PAPUR ADNABOD SWYDDOGOL

Enw	Patrick Gudele
Oedran	34
Gwlad Enedigol	De'r Swdan
Pam rydych yn gadael eich cartref?	Mae rhyfel cartref yn fy ngwlad. Pan wahanodd y De o weddill y Swdan, roeddem yn meddwl y byddai'n dod i ben ond, i mi, mae pethau wedi gwaethygu. Mae dynion arfog yn crwydro drwy'r trefi lleol yn gofyn cwestiynau yn yr iaith Dinka; os na allwch ateb yn eu hiaith, maent yn eich cipio ac yn eich saethu. Nid wyf eisiau brwydro. Ffermwr syml wyf fi. Rwyf eisiau byw mewn heddwch.
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	Rwyf wedi gadael fy holl deulu; ni allai fy ngwraig a fy mhedwar o blant ddod gyda mi ar fy nhaith oherwydd mae fy merch ieuengaf, Esther, yn wael iawn ac ni fyddai wedi goroesi'r daith hir ar draws yr anialwch yr oedd angen i mi ei gwneud er mwyn dianc. Rwyf wedi eu gadael mewn gweryll i ffoaduriaid yng ngogledd y Swdan ac rwy'n gobeithio y byddant yn gallu ymuno â mi i gael lloches yn Ewrop.
Pa eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	Mae gennyf ddarlun a wnaeth fy mab hynaf, Simon, i mi pan adewais. Mae'n dangos ein teulu ni yn sefyll y tu allan i'r hen dŷ yn y dyddiau cyn i'r rhyfel ddinistrio ein bywydau.

PAPUR ADNABOD

Enw	Zeinah Abadi
Oedran	14
Gwlad Enedigol	Syria
Pam rydych yn gadael eich cartref?	Mae pawb yn fy ngwlad wedi gadael eu cartrefi! Mae'r rhyfel wedi ein rhwygo'n ddarnau. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw mewn gwerysloedd mewn gwledydd cyfagos. Fe wnaeth fy nheulu ddianc i Irac, ond yna cymerodd ISIS reolaeth dros y rhan o'r wlad lle roeddem yn byw, ac roedd fy mam yn pryderu y bydden nhw'n fy herwgipio - felly mae hi wedi talu i fasnachwyr fynd â mi oddi yno.
Pwy rydych chi wedi'i adael yno?	Mae fy nhad eisoes wedi marw; cafodd ei ladd yn ystod y protestiadau cyntaf yn erbyn yr Arlywydd. Rwyf wedi gadael fy mam a'm dau frawd.
Pa eitem werthfawr y byddwch yn mynd â hi gyda chi a pham?	Mwclis a roddwyd i mi gan fachgen y cwrddais ag ef mewn gwerysll i ffoaduriaid yn Irac. Ei enw oedd Mohammed ac roedd yn 16 oed; nid wyf yn meddwl y byddaf yn ei weld fyth eto.